
# 2019: Blwyddyn Darganfod Cymru.

Canllaw cam wrth gam i'ch busnes.
#GwladGwlad



# Blwyddyn Darganfod.

2019 yw ein gwahoddiad i ymwelwyr ddarganfod Cymru o'r newydd, ac wrth wneud hynny, rydyn ni eisiau i'n gwesteion adael a hwythau wedi darganfod rhywbeth newydd ac arbennig amdanynt eu hunain, rhywbeth fydd yn aros yn eu cof ac yn rhan o'u henaid am byth.

| | |
|---|---|
| 04 | Adeiladu ar gryfderau Cymru. |
| 06 | Themâu tymhorol. |
| 08 | Pam Blwyddyn Darganfod? |
| 10 | Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau. |
| 12 | Datblygu naws am le. |
| 14 | Profiadau cofiadwy — Fy Nghymru. |
| 16 | Enghreifftiau o brofiadau. |
| 18 | Pum awgrym er mwyn creu profiadau cofiadwy. |
| 20 | Marchnata digidol. |
| 32 | Adnabod eich marchnad. |
| 34 | Offer i'ch helpu. |
| 40 | Ein Blwyddyn Darganfod 2019 — a thu hwnt. |

# Cyn symud ymlaen gadewch i ni atgoffa ein hunain o berfformiad presennol yr economi ymwelwyr (2018):



**Yn gyntaf, diolch i bawb yn y sector twristiaeth** am groesawu cynifer o ymwelwyr i Gymru yn 2018 — mewn cyfnod o dwf sylweddol yn nifer y teithiau rhyngwladol i Brydain a'r teithiau domestig o gwmpas Prydain.

**Ar hyn o bryd mae Cymru'n denu ac yn darparu ar gyfer tua 10 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn.** Mae'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru yn hyderus ynglŷn â'r dyfodol ac mae'r rhagfynegiadau cychwynnol ar gyfer 2018 yn addawol. Mae twristiaeth ryngwladol a domestig yn tyfu'n gyflym ledled y Deyrnas Unedig.

**Erbyn hyn mae Cymru'n denu miliwn o ymwelwyr o dramor bob blwyddyn.** Dyma'r nifer mwyaf erioed, ond mae cyrchfannau eraill ym Mhrydain yn tyfu ar gyfradd gyflymach na ni.

**Ein marchnad graidd yw'r farchnad ddomestig** ac yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at fis Mawrth 2018 gwelwyd cynnydd o 3% yn nifer yr ymwelwyr o Brydain sy'n dod i Gymru.

**Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd** gilydd i rannu ein cyfran o'r cynnydd mewn teithio; hybu mwy o wariant gan ymwelwyr sy'n dod i Gymru; a gwneud rhagor o waith i geisio newid natur dymhorol y diwydiant ymwelwyr.



# Adeiladu ar gryfderau Cymru.





Mae'r tair thema hyd yn hyn — Blwyddyn Antur, Blwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr — yn cynrychioli prif gryfderau Cymru, sef antur, diwylliant a thirwedd. A dyma'r meysydd rydym yn credu y gall Cymru fod yn wirioneddol gystadleuol ynddyn nhw. Rydym eisiau mynd yn ôl at y cryfderau hyn, a'u gwneud yn gryfach fyth o 2019 ymlaen.

**Gwyddom fod Cymru eisoes yn cael ei hystyried yn brif gyrchfan antur y Deyrnas Unedig.**
Mae Cymru'n faes chwarae naturiol â mynyddoedd a choedwigoedd llawn llwybrau igam-ogam i feicwyr a cherddwyr. Mae Llwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 milltir (1,400km) o hyd, yn ymestyn yr holl ffordd o amgylch ein glannau, a gallwch roi cynnig ar chwaraeon dŵr o bob math. Mae Adroddiad Marchnad Twristiaeth Antur Byd-eang 2016–2020 yn rhagweld twf o 46% yn y farchnad antur fyd-eang erbyn 2020.

**Mae ein diwylliant a'n treftadaeth unigryw yn ein diffinio.**
Mae ein hiaith hynafol, 641 o gestyll (mwy fesul milltir sgwâr nag yn unman arall ar wyneb y ddaear) a saith Amgueddfa Genedlaethol — pob un â mynediad am ddim — yn ffactorau allweddol sy'n ysgogi ymwelwyr o wledydd tramor i ddod i'n gwlad. Mae diwylliant a chreadigrwydd yn ffactorau pwysig sy'n ysgogi twristiaeth o farchnadoedd gwerth uchel hefyd, ac mae hyn yn gysylltiedig â'r twf cyffredinol byd-eang yn y galw am dwristiaeth leol a naws am le o safon uchel.

**Mae gennym hefyd dirwedd anhygoel sydd wedi bod yn denu ymwelwyr ers blynyddoedd.**
cadwyni mawr o fynyddoedd sy'n gostwng yn raddol i ddyffrynnoedd llydan ein cymunedau amaethyddol a'r cannoedd o byrth, cilfachau ac ynysoedd. Rydym yn gweld cynnydd yn y galw am wyliau natur a bywyd gwyllt ac am gyrchfannau sy'n gweithio'n galed i ofalu am yr amgylchedd maen nhw'n ceisio'i hybu. Mae'r symudiad gwrth-blastig rydym wedi'i weld eleni yn arwydd o'r hyn y gallwn ei ddisgwyl yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn rydym yn gweld twf yn nifer yr ymwelwyr sy'n edrych am gyfleoedd ystyrlon i wella'u lles corfforol a meddyliol yn yr awyr agored.

**Felly mae 2019 yn gyfle i edrych yn fanylach ar y tair thema greiddiol hyn.**
I wella'r profiadau rydym yn eu cynnig ym mhob un o'r meysydd hyn, ochr yn ochr â hanfodion y croeso Cymreig: bwyd a diod a lletygarwch o safon uchel. Ond mae hefyd yn gyfle i greu darluniau amlhaenog o Gymru, ac i gyfuno'r cryfderau hyn i lunio neges unigryw Cymru i'r byd.

# Themâu tymhorol.



ℹ

*Os ydych yn cynllunio digwyddiad neu weithgaredd sy'n gydnaws â'n themâu tymhorol, rhowch wybod i'n tîm newyddion drwy anfon ebost i productnews@gov.wales*

*Os hoffech gael sylw i'ch digwyddiadau ar y tudalennau digwyddiadau ar wefan Croeso Cymru, anfonwch ebost i vw-steward@nvg.net*

*Cadwch i fyny â'r newyddion lleol, y datblygiadau a'r digwyddiadau drwy ymweld â croeso.cymru ac @CroesoCymruBus ar y cyfryngau cymdeithasol.*



Yn 2019, bydd tîm marchnata Croeso Cymru yn canolbwyntio ar bedair thema dymhorol. Dyma ychydig o wybodaeth ymlaen llaw am y digwyddiadau sydd i ddod yn fuan a chipolwg ar y ffordd y byddwn yn rhoi sylw iddyn nhw.

| | Syniadau: | Enghreifftiau o ddigwyddiadau: |
|---|---|---|
| **Siwrnai o Ddarganfod**<br><br>Ionawr–Mawrth | — Gosod yr olygfa ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.<br>— Darganfod eich hun, adfywio a lles.<br>— Ymarfer corff yn yr awyr agored.<br>— Teithiau ffordd i leoedd agos ond anadnabyddus, e.e. defnyddio Ffordd Cymru.<br>— Gwyliau gartref / dianc am gyfnod byr.<br>— Gwyliau byr yn y gaeaf i gyplau mewn llety clyd. | — Artes Mundi 8.<br>— Trochfeydd Dydd Calan.<br>— Gŵyl Santes Dwynwen a Gŵyl Sant Ffolant.<br>— Digwyddiadau Gŵyl Ddewi.<br>— Diwrnod Miwsig Cymru. |
| **Darganfod Antur**<br><br>Ebrill–Mehefin | — Anturiaethau iach yn yr awyr agored.<br>— Chwarae, dianc ac ail-greu.<br>— Gweithgareddau llawn adrenalin, fel y wifren wib.<br>— Syllu ar y sêr.<br>— Teithiau natur.<br>— Seibiant oddi wrth dechnoleg. | — Sioe Flodau'r RHS.<br>— Marathon Casnewydd Cymru.<br>— Focus Wales.<br>— Digwyddiadau'r Warchodfa Awyr Dywyll. |
| **Darganfod Diwylliant**<br><br>Gorffennaf–Medi | — Gwyliau a digwyddiadau awyr agored.<br>— Gwyliau a ffeiriau.<br>— Ailddarganfod hanes drwy gestyll.<br>— Gwyliau byr i'r teulu.<br>— Dathliadau Cymru.<br>— Digwyddiadau a dathliadau bwyd a diod. | — Adloniant ar yr arfordir.<br>— Wythnos Bysgod Sir Benfro.<br>— Cestyll Byw.<br>— Cymru 360. |
| **Darganfod Tirwedd**<br><br>Hydref–Rhagfyr | — Chwilota am eich cynhwysion eich hun.<br>— Cerdded a beicio ar hyd Llwybr Arfordir Cymru.<br>— Tynnu sylw at raeadrau sy'n bywiogi yn yr hydref.<br>— Casglu Cynnyrch yr Hydref. | — Cynnwys tymhorol.<br>— Gŵyl Fwyd y Fenni.<br>— Gwledd Conwy.<br>— Rali Cymru GB.<br>— Digwyddiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. |



# Pam Blwyddyn Darganfod?

Does unman yn debyg i Gymru. Mae wedi'i hadeiladu ar hanes cyfoethog o ddiwylliant, treftadaeth a chwedlau, wedi'i ffurfio gan ddyfroedd gwyllt y môr a'i chyfoethogi gan greadigrwydd ac angerdd y cymeriadau sy'n byw yma.



Mae sawl haen o hunaniaeth, ac mae cant a mil o bethau i'w datgelu yma. Dyma'r amser i wir ddarganfod y tir anhygoel hwn — meddyliwch am y peth:

**Diwylliant Cyfoes.**
Mae Cymru'n ffynnu ar ddiwylliant, boed yn hanesyddol neu'n gyfoes. Mae celf sy'n addas i bawb, iaith a cherddoriaeth â'i churiad unigryw ei hun, theatr ac opera ar lwyfannau ac mewn cestyll, amgueddfeydd a lleoliadau treftadaeth ym mhob cwr o'r wlad. Mae'n gallu bod yn arloesol, yn heriol ac mae'n gallu ceisio ymgorffori'r ysbryd Cymreig drwy baent, geiriau, caneuon a chasgliadau.

**Dilyn llwybrau newydd.**
Mae Ffordd Cymru, rhwydwaith newydd o dair prif ffordd, yn ei gwneud hi'n haws nag erioed i chi yrru ar hyd a lled y wlad. Mae Ffordd Gogledd Cymru, Ffordd yr Arfordir a Ffordd Cambria yn caniatáu i ymwelwyr ymgolli yn eu siwrneiau darganfod eu hunain. Mae Blwyddyn Darganfod yn gyfle gwych i roi mwy o sylw i gyrchfannau penodol ledled Cymru, gan ddefnyddio Ffordd Cymru fel llwyfan, yn enwedig ar gyfer ein marchnadoedd rhyngwladol.
fforddcymru.cymru

**Datgelu milltiroedd o ynysoedd.**
Mae hanner cant o ynysoedd yn y môr o amgylch Cymru, rhai mewn clystyrau a rhai ar eu pen eu hunain. Gallwch deithio dros y tonnau mewn cwch neu gaiac, padlfyrddio ar eich traed, neu os yw'n ddiogel, gallwch gerdded ar wely'r môr i ambell ynys pan mae'r llanw allan.

**Profi Cymreictod.**
Mae pobl a lleoedd yng Nghymru yn rhannu cariad heintus at eu gwlad ac awch i gadw'u Cymreictod yn fyw. Mae ym mhobman — ar y terasau rygbi, mewn côr meibion, mewn hen bwll glo — ac mae'n deimlad sy'n gafael ynoch chi, p'un a ydych chi'n Gymro ai peidio.

**Rhyfeddu at fyd natur.**
Mae dros 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, ond mae'r anifeiliaid gwyllt yn llawer mwy niferus. Gallwch weld dolffiniaid, morfilod, wiwerod coch, llamhidyddion, ffwlbartiaid a cheirw Sika, os ydych chi'n edrych yn y lleoedd iawn.

**Blasu cynnyrch y tir.**
Mae tymhorau, daearyddiaeth a diwydrwydd Cymru yn creu cynnyrch cartref blasus. Bara lawr hallt yn syth o'r môr, cacennau cri trwchus yn syth oddi ar y radell, caws pob yn codi'n swigod cynnes o dan y gwres... digon i dynnu dŵr o'ch dannedd.



# Beth mae hyn yn ei olygu i fusnesau.

Bydd 2019 yn ddilyniant i'r tair blwyddyn thema flaenorol, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar ryfeddodau llai adnabyddus Cymru.

Byddwn yn dathlu'r pethau arbennig mae tuedd i ni eu cymryd yn ganiataol, y pethau trawiadol sy'n llithro i'r cefndir a'r rhyfeddodau lleol llai adnabyddus.

Mae'n amser i ni hyrwyddo ein llwybrau drwy'r gwyllt, y lleoedd cyfrinachol bron sy'n wledd i'r synhwyrau a'r busnesau bach sy'n creu cynnyrch a phrofiadau dilys, creadigol a llawn bywyd.



## Dyma rai pethau y gallai eich busnes ei wneud er mwyn croesawu pobl a'u hannog i ddarganfod:

**Profi'r olygfa.**
Trefnwch daith gerdded o amgylch eich ardal, gan aros yma ac acw i flasu danteithion cynhyrchwyr.

**Sesiynau rhoi cynnig arni.**
Gofynnwch i'r ymwelwyr a fydden nhw'n hoffi rhoi cynnig ar beth bynnag rydych chi'n adnabyddus amdano, boed yn grochenwaith, gwneud siocled neu gneifio defaid.

**Ysbrydoli cynnwys y we.**
Yn lle bod eich gwefan yn ymwneud â'ch un cynnyrch, dylech ystyried sut gallwch chi gynnwys amrywiaeth o brofiadau lleol a hadau ar gyfer ysbrydoliaeth. Bydd hyn yn annog pobl i aros yn hirach, dod yn ôl eto a gwario mwy.

**Y cyffyrddiadau annisgwyl.**
Mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r pethau bach yn fwy na sbloets fawr — cipolwg y tu ôl i'r llenni i weld sut mae pethau'n cael eu gwneud, dod i ddeall traddodiadau neu hanes, personoli, cyfleoedd i gymryd rhan.

**Helfa natur.**
Paratowch heriau darganfod sy'n annog pobl i fynd i'r parc agosaf i chwilio am flodau, coed neu nodweddion naturiol arbennig a thynnu llun ohonyn nhw.

**Noddfa bersonol.**
Beth am gynnal sesiynau ymlacio mewn man gwyrdd llai adnabyddus er mwyn i bobl allu darganfod eu hunain a mwynhau'r cyffro o ddod o hyd i le tawel, cudd.

**Archwilio'r awyr dywyll.**
Mae profiadau syllu ar y sêr yn werth eu rhannu ag ymwelwyr. Mae gan Gymru rwydwaith o warchodfeydd a pharciau awyr dywyll sy'n lleoedd hanfodol i ymweld â nhw yn ystod misoedd y gaeaf.
discoveryinthedark.wales/cym/home

**Cerdded yn ôl traed hynafiaid.**
Mae twristiaeth achyddiaeth yn tyfu, a hynny oherwydd bod y byd yn mynd yn llai ac yn llai. Beth am weithio gyda gweithredwyr teithiau sy'n cynnig teithiau achyddiaeth?

# Datblygu naws am le.

Mae llawer o bethau sy'n rhoi naws Gymreig i Gymru. Gallwch archwilio syniadau yn ymwneud â hunaniaeth i helpu i greu naws am le i'ch busnes a rhoi gwreiddiau dwfn iddo yn eich stori leol.

**Rhowch ychydig o bethau sy'n gwneud i rywun feddwl am Gymreictod o gwmpas y lle,** fel arwyddion dwyieithog, cynnyrch o Gymru a thaflenni am atyniadau lleol. Boed yn gyfoes neu'n hanesyddol, bydd pob agwedd ar Gymreictod yn ychwanegu at y naws am le ac yn gwella profiad eich ymwelwyr.

**Mae'r iaith Gymraeg yn unigryw i ni,** felly ceisiwch ddefnyddio ychydig o eiriau Cymraeg o amgylch eich cwsmeriaid. Gall fod mor syml ag arwydd 'croeso' pan maen nhw'n dod i mewn drwy'r drws neu 'diolch' pan fyddwch yn cymryd archebion.

*Mae'r iaith Gymraeg yn arbennig, felly defnyddiwch hi a manteisiwch arni. Bydd y ffordd rydych chi'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn dibynnu ar y math o fusnes rydych yn ei redeg, ond ceisiwch fod yn greadigol a rhoi digon o anogaeth. Er enghraifft:*

**Os ydych yn rhedeg siop —** Labelwch eich cynnyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Os ydych yn rhedeg gwasanaeth gwely a brecwast —** Paratowch becyn i'w roi i'ch gwesteion pan fyddant yn cyrraedd sy'n egluro sut mae dweud rhai geiriau elfennol a beth yw ystyr rhai o'r enwau lleoedd Cymraeg lleol.

**Os ydych yn rhedeg cwmni antur awyr agored —** Dysgwch eich grwpiau i ddweud 'bendigedig' pan fydd aelod o'r tîm yn gwneud yn dda.

**Os ydych yn rhedeg tafarn —** Dywedwch 'iechyd da' pan fyddwch yn gweini diodydd i bobl wrth y bar.






I gael cyngor a chymorth am ddim er mwyn cynyddu faint o Gymraeg mae eich busnes yn ei defnyddio, ewch i llyw.cymru/cymraeg neu anfonwch e-bost i gwybodaeth@cymraegbusnes.cymru

# Profiadau cofiadwy — Fy Nghymru.

Bwriad Blwyddyn Darganfod yw ysgogi a helpu'r diwydiant yng Nghymru i ganolbwyntio ar y cynnyrch, y digwyddiadau a'r ymgyrchoedd a fydd yn apelio at farchnadoedd twf y dyfodol.

Yn 'Experience Economy' mae B. Joseph Pine a James H. Gilmore yn dweud mai'r hyn y mae'n rhaid i fusnesau ei wneud er mwyn cael mwy o werth yn y farchnad yn y dyfodol yw trefnu digwyddiadau cofiadwy i'w cwsmeriaid. Maen nhw hefyd yn dweud mai'r cynnyrch terfynol fydd yr atgof ei hun: y profiad.

Mae lles yn bwysig iawn yn y byd prysur sydd ohoni a gwyddom fod ymwelwyr eisiau buddsoddi eu hamser a'u harian er mwyn chwilio am werth y tu hwnt i'r materol — maen nhw'n chwilio am wyliau sy'n cyfoethogi ac yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae rhai'n cyfeirio at hyn fel yr 'Effaith Instagram', ond yr hyn maen nhw'n chwilio amdano go iawn yw profiad ystyrlon, yr atgof parhaol, y tu ôl i'r llun.

Mae'r newid hwn i'w weld ym mhob agwedd ar dwristiaeth: mae brandiau byd-eang fel Airbnb ac Expedia yn hyrwyddo cynnyrch 'Profiad'; ac yma yng Nghymru gwyddom fod newyddiadurwyr a dylanwadwyr erbyn hyn yn gofyn am y pethau arbennig, unigryw sy'n newid bywydau — unrhyw beth allan o'r cyffredin — i greu storïau i'w rhannu.

Yn wir, gwelodd astudiaeth gan Expedia yn 2016 fod cenhedlaeth y mileniwm newydd, ar hyd a lled y byd, yn rhoi blaenoriaeth i ddilysrwydd yn eu profiad o deithio.





# Enghreifftiau o brofiadau.

Mae llawer o fusnesau a lleoedd ledled Cymru sydd bellach yn cynnig profiadau gwirioneddol wreiddiol i deithwyr sy'n archwilio. Mae enghreifftiau da i'w gweld yn ein ffilm astudiaeth achos — bit.ly/CCVW18

**Gogledd Cymru** — Does dim rhaid i ni edrych ymhellach na Gogledd Cymru i weld enghraifft o gyrchfan lle mae profiadau antur unigol cofiadwy yn dod at ei gilydd i greu un o'r cyrchfannau antur uchaf ei barch ar wyneb y ddaear. gonorthwales.co.uk/things-to-do/activities/adventure-and-outdoor

*Mae'n werth chwilio am ragor o ysbrydoliaeth ar-lein hefyd er mwyn gweld beth mae gwledydd a chyrchfannau eraill yn ei wneud. Ychydig o enghreifftiau:*

**Istria yn Croatia** sy'n apelio at ymwelwyr rhyngwladol gwerth uchel drwy roi pwyslais ar brofiadau gastronomig y rhanbarth, ac sydd hefyd yn rhoi llwyfan i'r trymflau, yr olew olewydd a'r gwinoedd rhagorol sy'n cael eu hallforio oddi yno. istra.hr/en/home

**Teithiau Banksy, Bryste** mae'r teithiau diwylliannol hyn wedi rhoi Bryste ar y map fel cyrchfan sy'n cynnig profiadau creadigol, gwahanol sy'n apelio'n fwyaf arbennig at genhedlaeth y mileniwm newydd. visitbristol.co.uk/things-to-do/banksy-walking-tour-p1354013

**Bregenz a Bregenzerwald, Awstria** adfywio ardal wledig â phrofiadau cyfoes lle mae diwylliant yn cwrdd â natur. bregenzerwald.at

**Llwybrau Ymwelwyr Norwy** y gadwyn swyddogol o brofiadau antur, diwylliant a thirwedd yr 21ain ganrif. nasjonaleturistveger.no/en

**Design Hotels,** brand llety blaenllaw, sy'n dangos sut y gall cynnyrch da ddod yn fyw drwy adrodd storïau sy'n seiliedig ar brofiadau. designhotels.com



## Dod â hanes celf yn fyw: Y Daith Fwstash
## Ljubljana, Slovenia

**Mae tri dyn â mwstash yn gwisgo fel artistiaid enwog o'r wlad: Jože Plečnik (pensaer), Ivan Cankar (llenor) a Rihard Jakopič (arlunydd).**

Mae'r tri hyn a'r tywysydd yn mynd ag ymwelwyr ar daith ar gefn beic o amgylch Ljubljana. Mae'r daith yn galw heibio ystafell weledigaethol y pensaer, hoff far y llenor ac Oriel Genedlaethol yr arlunydd — sydd i gyd yn nodweddion diwylliannol go iawn yn y ddinas.

Drwy eu rhoi yng nghyd-destun y storïau, mae'r daith yn rhoi cipolwg i'r ymwelwyr ar bŵer creadigol Slofenia, cyfrinachau'r ddinas a nodweddion cymeriad Slofenia. Maen nhw'n cael gweld y prif atyniadau, gan gynnwys theatr awyr agored Križanke, yr Oriel Gelf a stiwdio Canolfan Ryngwladol y Celfyddydau Graffig (MGLC), ac maen nhw'n cael mynd ar feic drwy'r strydoedd hardd cyn mwynhau darn o potica a phaned o goffi llenor.

## Gwahodd pobl i chwarae rhan: Kimono Sakaeya
## Tokyo, Japan

**Mae cimonos, fel teyrngarwch teuluol, yn symbolaidd iawn yn niwylliant Japan.**

Mae Kahori Ochi yn rhedeg profiad cimono yn siop ei theulu, a'i bwriad yw helpu ymwelwyr i gysylltu ag athroniaeth draddodiadol Japan. Drwy wisgo cimono, maen nhw'n ymgysylltu'n â gorffennol a phresennol y wlad ac yn gweld sut deimlad yw gwisgo'r dilledyn.

Gall ymwelwyr fynd i'w siop, a agorwyd dros 50 mlynedd yn ôl gan ei rhieni, i gael eu gwisgo mewn cimono addurnedig. Ar ôl iddyn nhw gael eu gwisgo, mae'n bosib iddyn nhw fynd i gael tynnu eu lluniau ar y safle, wrth Greirfa Meiji neu mewn gardd Japaneaidd draddodiadol. Ar ôl hynny, mae Kahori yn mynd â nhw i seremoni de go iawn i orffen y profiad cimono.

# Pum awgrym er mwyn creu profiadau cofiadwy.





**Bod yn ddilys.**
Gwnewch yn siŵr bod yr hyn rydych yn ei gynnig, a'r ffordd rydych yn ei gynnig, yn unigryw i chi, a'i fod yn adlewyrchu eich busnes a'ch lleoliad. Mae'r ffactorau hyn yn creu gwerth ychwanegol i wasanaeth cwsmeriaid o safon, beth bynnag yw maint eich busnes.

**Defnyddio eich arbenigedd lleol.**
UUn o'r asedau mwyaf defnyddiol i ymwelwyr yw eich gwybodaeth arbenigol chi am yr ardal. Cynigiwch helpu cwsmeriaid drwy gynnig awgrymiadau sy'n seiliedig ar eu diddordebau, eu hanghenion a faint o amser sydd ganddyn nhw e.e. lle gorau i fynd â'r plant i archwilio pyllau dŵr mewn creigiau i gyngor ynglŷn â lle i brynu'r cynhwysion arbenigol.

**Deall beth sy'n dylanwadu ar eich cwsmeriaid.**
Gallai llawer o bethau ddylanwadu ar eich cwsmeriaid, er enghraifft y pethau maen nhw'n eu gwneud gyda chi, gwybodaeth maen nhw'n ei chael gennych chi sy'n eu helpu i ddarganfod profiadau eraill, y berthynas a'r teyrngarwch maen nhw'n ei adeiladu gyda chi a'r atgofion y gwnaethoch chi helpu i'w creu iddyn nhw. Drwy adnabod eich cwsmeriaid a sut maen nhw'n hoffi profi pethau, gallwch gynnig profiadau y byddan nhw'n eu mwynhau.

**Gwneud y gorau o'ch cymuned dwristiaeth.**
Mae pob busnes twristiaeth yn bodoli ochr yn ochr. Yn hytrach na gweld busnes ymwelwyr arall yn eich ardal fel cystadleuaeth, meddyliwch amdano fel cyfle i greu profiad llawnach i'ch ymwelwyr. Ymunwch â rhwydwaith o fusnesau tebyg i'ch un chi, a pherchnogion busnesau lleol, i rannu gwybodaeth am ddiwydiannau, cynnyrch a'r ardal. Bydd hyn yn eich galluogi i gynnig mwy o syniadau a chyngor i ymwelwyr.

**Creu cynnwys perthnasol.**
Gall eich ymdrechion marchnata ar-lein ac all-lein helpu i hyrwyddo cyfleoedd i ddarganfod a phrofiadau ystyrlon. Ceisiwch greu gwybodaeth ddefnyddiol, ddiddorol ac ysbrydoledig sy'n berthnasol i'ch cwsmeriaid presennol ac i ddarpar gwsmeriaid. Defnyddiwch eich gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu ar gyfer llawer o gynulleidfaoedd posibl, i gyrraedd marchnadoedd arbenigol drwy feddwl yn ochrol ynglŷn â beth sydd gan eich ardal leol i'w gynnig a dweud wrth bobl am y profiadau amrywiol sy'n aros amdanyn nhw.

*'Rhaid i'r gyrchfan ddarparu cylchdaith gyflawn, cadwyn o brofiadau cysylltiedig yn hytrach na mwclis unigol o raglennu, amwynderau ac amserlenni traddodiadol.'*
**Adroddiad Global Wellness Trends**



# Marchnata digidol.

Rydym yn byw mewn byd lle mae marchnata digidol yn rhan bwysig o'n bywydau, boed fel busnes neu fel cwsmer. Nid gwylio fideos o gathod a phostio hunluniau yw'r unig beth mae pobl yn ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol y dyddiau hyn. Mae llawer yn dibynnu ar rwydweithiau cymdeithasol i ddarganfod, ymchwilio ac addysgu eu hunain am frand cyn ymgysylltu â'r sefydliad hwnnw.



O ran marchnatwyr, mae angen gwneud mwy na dim ond postio ar gyfrifon Facebook a Twitter. Rhaid i chi hefyd wehyddu elfennau cymdeithasol i bob agwedd ar eich gwaith marchnata a chreu rhagor o gyfleoedd i rannu gyda chymheiriaid. Po fwyaf mae eich cynulleidfa eisiau ymgysylltu â'ch cynnwys, po fwyaf tebygol ydyn nhw o fod eisiau ei rannu. Mae hyn yn y pen draw yn gwneud iddyn nhw ddod yn gwsmer. Ac ar ôl hynny, gobeithio y byddan nhw'n dylanwadu ar eu ffrindiau ac yn eu cael nhw i fod yn gwsmeriaid hefyd.

Yma byddwn yn trafod marchnata digidol ac yn canolbwyntio ar Instagram, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn i'ch busnes.

# Pwysigrwydd cynnwys digidol.

Mae pawb yn siarad am gynnwys. Mae cynnwys digidol a marchnata cynnwys yn bynciau sy'n cael eu trafod yn aml ym mhob diwydiant. Mae'n bwerus iawn ym maes twristiaeth, oherwydd gall droi pobl nad ydyn nhw'n gwsmeriaid yn ddilynwyr brwd yn hawdd iawn.

Does yna ddim diffiniad penodol o 'gynnwys', ond meddyliwch amdano fel unrhyw beth sy'n rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa rydych yn ei thargedu neu sy'n ennyn ymateb ganddi. Gallai'r rhain fod yn flogiau, trydariadau, newyddlenni ebost, storïau Instagram a ffeithluniau. Mae cynhyrchu a chyhoeddi cynnwys sy'n marchnata eich busnes i gynulleidfa benodol yn cael ei alw'n 'farchnata cynnwys'.

Mae'r cynnwys digidol gorau'n darparu gwerth i'r rhai sy'n ymgysylltu ag ef. Yn amlach na pheidio, mae'n addysgiadol, yn darparu adloniant, yn rhywbeth y gall pobl uniaethu ag ef a / neu'n rhywbeth cofiadwy. Mae brandiau mawr wedi bod yn buddsoddi llawer o arian mewn marchnata cynnwys ers blynyddoedd, ond erbyn hyn mae busnesau llai yn gwneud hyn hefyd.

**Dyma rai o fanteision cyhoeddi cynnwys digidol da:**

**Gall helpu i roi gwybodaeth uniongyrchol i'ch cynulleidfa** am unrhyw agwedd ar eich cynnyrch, gwasanaeth, lleoliad neu gyfleusterau, sy'n gwneud iddyn nhw ymddiried ynoch chi fel busnes sy'n gwybod beth mae'n ei wneud.

**Gall roi hwb i'ch presenoldeb ar-lein ac i ymwybyddiaeth o'ch brand,** gan helpu eich busnes i ymddangos yn uwch mewn chwiliadau ar beiriannau chwilio perthnasol ac i gael lle mwy amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Mae'n bosibl cysylltu â'r cynnwys digidol a'i rannu,** a gall hyn gynyddu nifer yr ymweliadau â'ch gwefan, eich dylanwad a chyrhaeddiad eich negeseuon.

**Gall arwain at gynyddu gwerthiant,** diddordeb y cyhoedd, ymgysylltu a rhyngweithio — a gall y rhain i gyd eich helpu i wneud mwy o elw.



*Anodd cael amser i greu cynnwys?*

Rhowch gynnig ar systemau sy'n caniatáu i chi raglennu pryd mae eich postiadau'n mynd yn fyw ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymhlith yr opsiynau poblogaidd mae Hootsuite, Tweetdeck a Buffer.

Rhowch ychydig oriau o'r neilltu unwaith neu ddwywaith yr wythnos er mwyn i chi allu mynd ati o ddifri. Gwnewch yn siŵr hefyd fod y ffôn wrth law gennych i ddal unrhyw gynnwys posibl fel mae'n digwydd, fel ymateb cwsmeriaid, digwyddiadau doniol a danfon cynnyrch.

Ystyriwch ofyn i grëwr cynnwys sy'n gweithio ar ei liwt ei hun wneud rhywfaint o'ch gwaith marchnata cynnwys. Os cewch chi afael ar arbenigwr cynnwys credadwy dylai eich buddsoddiad ddwyn ffrwyth ymhen ychydig fisoedd.



# Pedair ffordd o greu storïau gwych.

Er mwyn sefyll allan — cael eich gweld, eich clywed a'ch cymryd o ddifri — mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn cynhyrchu cynnwys digidol o safon sy'n dod â stori eich busnes yn fyw. Dyma bedwar awgrym er mwyn rhoi sbarc ychwanegol i'ch blogiau, fideos a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

1

**Deffro emosiynau.**
Rydym yn mwynhau storïau sy'n gwneud i ni deimlo rhywbeth — rhai sy'n gwneud i ni chwerthin, yn gwneud i ni grio, yn gwneud i ni deimlo'n ddiolchgar neu'n gwneud i ni gydymdeimlo.

Beth bynnag yw eich busnes, gallwch roi emosiwn yn eich storïau. Er enghraifft, efallai fod eich cynnyrch wedi helpu rhywun sydd mewn angen, efallai fod rhywun enwog wedi bod yn aros gyda chi neu efallai fod gennych aelod o'r staff sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol ar weithwyr eraill. Gallai'r rhain i gyd ddeffro emosiynau'r darllenwyr os ydych chi'n eu hysgrifennu'n ddigon da.

2

**Dweud wrth bobl beth sy'n eich gwneud chi'n arbennig.**
Does dim rhaid i chi gael cenhadaeth fawr i fod yn unigryw; mae eich staff, eich angerdd, eich cymhelliant, eich cynnyrch a'ch grŵp o gwsmeriaid i gyd yn unigryw i'ch busnes. Os ydych yn cael anhawster i weld beth sy'n eich gwneud yn arbennig, meddyliwch am y pedwar gair yma sy'n dechrau â'r llythyren 'P': Pobl, Pethau (Cynnyrch), Prosesau a Phrynwyr.

Ar gyfer pob P, gofynnwch pwy, beth, pa, pam, ble a sut. Pwy yw eich cwsmer nodweddiadol, a beth sy'n ei wneud yn wahanol? O ble rydych chi'n cael eich deunydd crai? Pam rydych chi'n defnyddio technegau cynhyrchu neu dechnegau cysylltiadau cwsmeriaid penodol yn hytrach na rhai eraill? Sut mae eich cynnyrch neu wasanaeth yn effeithio ar bobl (gallai ddatrys problem, diwallu angen, helpu i greu atgofion)? Drwy ofyn cwestiynau o'r fath byddwch yn cael ffeithiau diddorol y gallwch wedyn eu troi'n gynnwys pwerus ar gyfer stori.



3

**Cadw pethau'n syml.**
Dydy'r rhan fwyaf o bobl ddim yn darllen paragraffau hir iawn ar eu sgriniau. Mae'n well ganddyn nhw destun bachog, pwrpasol y gallan nhw ei gymryd i mewn yn gyflym, ei gofio'n hawdd a'i ailadrodd wrth eu ffrindiau a phobl eraill.

Mae'n iawn i chi fod yn benodol neu fynd i fanylder wrth gyfathrebu os ydych yn meddwl mai dyna mae'r gynulleidfa rydych yn ei thargedu'n ei hoffi neu ei angen, ond peidiwch â defnyddio geiriau cymhleth, brawddegau hir na darnau diflas. Mae'r un peth yn wir am fideos — cadwch nhw'n fyr ac i'r pwrpas.

4

**Creu asedau i'w rhannu.**
Sut mae pobl yn tueddu i gael gwybodaeth am eich cwmni? Drwy hysbysebion ar y teledu? Mewn postiadau gwahanol ar y cyfryngau cymdeithasol? Drwy bresenoldeb y Prif Weithredwr yn y cyfryngau? Meddyliwch ble mae'r gynulleidfa rydych yn ei thargedu, yna lluniwch asedau y byddan nhw eisiau ymgysylltu â nhw a'u rhannu gyda phobl eraill.

Rhowch gynnig ar wahanol fathau o gynnwys i'w rannu, er enghraifft blog am weithgareddau rydych wedi ymwneud â nhw yn ddiweddar, storïau Instagram sy'n dangos beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni neu fideos byr o ymwelwyr yn mwynhau'r profiad. Bob tro y bydd rhywun yn rhannu eich cynnwys, bydd yn ymestyn cyrhaeddiad eich negeseuon, yn hybu ymwybyddiaeth o'ch brand ac yn cynyddu'r posibilrwydd o gael cwsmeriaid newydd.



# Pwysigrwydd Instagram.

Mae llun da'n adrodd stori'n well na mil o eiriau, a dyna pam y mae Instagram yn arf mor bwerus er mwyn adrodd stori brand. Fel llwyfan gweledol, gallwch ddefnyddio delweddau i arddangos lleoedd, cynnyrch, anturiaethau a gweithgareddau i gynulleidfaoedd ym mhob rhan o'r byd.

Mae ganddo gyfraddau ymgysylltu gwell na Facebook a Twitter, a hynny mae'n debyg oherwydd y gallu i weld a rhyngweithio â chynnwys yn gyflym. Drwy rannu lluniau, fideos a storïau, gallwch ledaenu ymwybyddiaeth o frand ar amrantiad i'ch cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid, cysylltu â marchnadoedd targed amrywiol a chael pobl i edrych ar y pethau da rydych chi'n eu gwneud, wrth greu proffiadau a helpu pobl i'w profi.

Mae dros 70% o ddefnyddwyr yn prynu cynnyrch a phrofiadau ar ôl eu gweld ar Instagram, sy'n dangos y dylanwad mae'n gallu ei gael ar arferion gwario defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys y gwrthrychau ffisegol maen nhw'n eu prynu a'r lleoedd maen nhw'n talu i ymweld â nhw. Os anwybyddwch Instagram, gallai golli cyfle i gynyddu nifer ei ymwelwyr, gwella'r presenoldeb ar-lein, i gael sylw'r wasg ac i ddenu cefnogwyr newydd.



# Am beth mae pobl yn chwilio ar Instagram?

Yn Croeso Cymru, rydym yn rhoi cynnwys gwreiddiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn rhannu postiadau arbennig sy'n hyrwyddo Cymru ar ei gorau mewn ffordd realistig. Yma, mae Justin Lewis o dîm marchnata digidol Croeso Cymru yn egluro beth sy'n gweithio'n dda ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

## Ar Facebook a Twitter

Cynnwys syml a dilys sy'n gweithio orau ar ein cyfrifon at ei gilydd. Mae fideos byr o bethau fel traethau, afonydd, rhaeadrau a bywyd gwyllt wedi gweithio'n dda iawn.

Mae'r fideos yma'n hawdd ac yn rhad i'w cynhyrchu. Gallwch eu ffilmio nhw ar ffonau clyfar, a'r cyfan mae angen i chi ei wneud ydy twtio ychydig ar y dechrau a'r diwedd. At ei gilydd, maen nhw'n gweithio'n well na fideos sydd wedi'u golygu'n broffesiynol ar y cyfrifon.

## Ar Instagram

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddelweddau go iawn o Gymru. Gan amlaf rydyn ni'n ailbostio delweddau gan ffotograffwyr proffesiynol neu ffotograffwyr amatur brwd, ond rydyn ni yn rhannu rhai delweddau o gyfrifon masnach.

Dydyn ni ddim yn rhannu postiadau sy'n ymwneud â materion lleol iawn (fel rhai am ddigwyddiadau lleol) na phethau fel cynigion arbennig a chystadlaethau.

# Ydych chi'n barod ar gyfer Instagram?

Cyn i chi bostio rhywbeth i Instagram, ewch drwy'r rhestrau gwirio hyn yn ofalus.





## Proffil.

— Ydy eich enw defnyddiwr yn cyfateb i enw eich busnes?

— Ydy hi'n hawdd i rywun ddod o hyd i'ch enw defnyddiwr?

— Ydy eich bywgraffiad yn dweud pwy ydych chi a beth rydych chi'n ei wneud i bobl?

— Ydy eich bywgraffiad yn cynnwys dolen gyswllt sy'n arwain i'ch gwefan?

— Ydy eich llun proffil yn dangos beth yw eich busnes (e.e. eich logo)?

— Ydy eich cyfrif wedi'i osod ar y modd Busnes yn y Gosodiadau?

— Ydych chi'n dilyn rhai busnesau lleol a chwmnïau mawr yn eich maes?

— Ydych chi'n rhyngweithio â defnyddwyr eraill ac yn ymateb i sylwadau?

## Postio.

— Ydy'r llun yn glir ac wedi'i oleuo'n dda?

— Ydy'r llun yn edrych yn naturiol a heb ormod o ôl-olygu?

— Ydy'r cynnwys yn gydnaws â'ch arddull Instagram bresennol?

— Oes gan y cynnwys botensial i apelio at eich cynulleidfa?

— Ydy'r cynnwys yn cyfateb i'ch brand ac i werthoedd eich busnes?

— A oes perygl i'r cynnwys beri tramgwydd ac a yw'r sillafu a'r atalnodi'n gywir?

— Ydy'r capsiwn yn ennyn diddordeb ac yn gwneud i rywun fod eisiau darllen mwy?

— Ydy'r capsiwn yn berthnasol i'r llun, y gynulleidfa a'r brand?

— Ydy'r capsiwn yn defnyddio rhwng 3 a 15 o hashnodau perthnasol?

— Ydych chi wedi tagio defnyddwyr sy'n cael eu henwi yn y post?

— Ydych chi wedi tagio'r lleoliad, os yw hynny'n berthnasol?

— Ydy hwn yn amser da i ymgysylltu a chael eich gweld (ddim yn gynnar iawn nac yn hwyr iawn)?

# Astudiaeth achos Instagram: fforest.

Mae Sian Tucker, cydberchennog fforest, cwmni sy'n darparu llety awyr agored yng Ngheredigion, wedi cael profiad llwyddiannus o redeg cyfrif Instagram y busnes.





*'Weithiau bydd pobl yn gweld un o'n lluniau o'r ardal, er enghraifft llun wedi'i dynnu ar draeth hardd neu yn y coed gerllaw, a bydd yn dod ag atgofion hapus iddyn nhw.'*

Rydyn ni'n defnyddio Instagram i roi rhyw syniad i bobl beth sydd gennyn ni yn fforest ac yn y rhan hon o orllewin Cymru. Mae'r brif gynulleidfa rydyn ni'n ei thargedu ar Instagram yn mwynhau profiadau yn yr awyr agored, felly rydyn ni'n ceisio apelio atyn nhw. Rydyn ni hefyd yn ceisio dangos i bobl eraill bod fforest yn lle gwych i ddod yn agos at natur a chael popeth y byddech chi ei angen er mwyn ymlacio'n braf yn ystod eich arhosiad.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n defnyddio lluniau da, a'n bod ni hefyd yn ystyried sut mae'r grid cyfan yn edrych ar ein tudalen broffil. Rwy'n ceisio cadw at liwiau neu themâu penodol. Rwy'n hoffi postio llun o bell yna rhannu un agos ar ôl hynny er mwyn creu amrywiaeth er enghraifft, golwg o'r tu allan i ddechrau ac yna un o'r tu mewn.

Mae rhai pobl yn defnyddio templedi pendant i gynllunio pryd y byddan nhw'n postio ar Instagram eu busnes, ond tueddu i bostio'n fwy achlysurol fydda i. Does gen i ddim amser penodol i bostio bob diwrnod. Yn lle hynny, rwy'n ceisio postio ddau neu dri diwrnod yr wythnos ac ymgysylltu'n barhaus â dilynwyr a phobl sydd wedi tagio @fforest mewn lluniau.

Mae dilysrwydd a gonestrwydd yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni eisiau i bobl gyrraedd fforest â syniad da o sut mae'n edrych a sut y gallai deimlo. Rwy'n ceisio amrywio'r lluniau er mwyn rhoi argraff gyflawn. Ar gyfer y llety, rwy'n tynnu lluniau o bethau fel y manylion ar fasys blodau, gwead naturiol y dodrefn pren a'r blancedi cynnes i swatio oddi tanyn nhw.

O ran yr ystafelloedd cyffredin, rwy'n hoffi dangos sut mae pobl yn ymgynnull i gael diod o flaen y tân a rhannu storïau yn ein tafarn fach, sut mae pobl yn defnyddio ein hysguboriau gwledda ar gyfer digwyddiadau ac, wrth gwrs, yr awyr agored yn ei holl ogoniant.

Rwy'n ceisio cael capsiynau ffeithiol a syml — disgrifio heb fod yn emosiynol a mynegi barn. Rwy i eisiau i bobl weld y lluniau a phrofi fforest, yna penderfynu drostyn eu hunain sut mae'n gwneud iddyn nhw deimlo. Dw i ddim yn rhannu lluniau personol ychwaith, oherwydd dw i ddim yn credu y dylen ni ddefnyddio ein cyfrif busnes i wneud hynny. Ymhlith yr hashnodau rwy'n eu defnyddio'n aml mae #fforest, #visitwales a #stayplaydream.

Mae cymuned yn bwysig i ni. Rwy'n hoffi rhannu lluniau sy'n cael eu tynnu gan westeion, yn rhannol oherwydd ein bod ni'n hoffi'r gwahanol safbwyntiau maen nhw'n eu rhoi, ac oherwydd ein bod eisiau iddyn nhw wybod ein bod ni'n ddiolchgar iddyn nhw am ddod aton ni ac am eu cwmni. Yn yr un modd, rydyn ni'n rhannu lluniau o bethau yn yr ardal i ddangos yr hwyl sydd i'w gael, a beth sydd i'w weld, ei wneud a'i fwyta yn yr ardal.

Weithiau bydd pobl yn gweld un o'n lluniau o'r ardal, er enghraifft llun wedi'i dynnu ar draeth hardd neu yn y coed gerllaw, a bydd yn dod ag atgofion hapus iddyn nhw. Mae'n braf gallu gwneud hynny, ac o safbwynt y busnes, mae'n gallu arwain at archebion sy'n cael eu hysbrydoli gan atgofion.

# Aðnabod eich marchnað.



I gael y gorau o'ch ymdrechion marchnata, mae'n holl bwysig eich bod yn gwybod pwy yw eich ymwelwyr posibl a sut gallwch eu denu. Taflwch eich rhwyd twristiaeth yn eang drwy gofio cynnig pethau sy'n atyniadol i nifer o wahanol fathau o ymwelwyr. Dyma arweiniad ar broffiliau ar gyfer 2019, yn seiliedig ar y pedwar prif fath o ymwelydd.

## Archwilwyr Golygfeyðð

**Cyplau ac unigolion, 45+**

**Beth maen nhw'n ei hoffi:**
mwynhau golygfeydd hardd yn y mynyddoedd, ar hyd yr arfordir neu yng nghefn gwlad, gan fwynhau natur, cerdded gan gynnwys atyniadau treftadaeth a gweithgareddau.

**Beth maen nhw eisiau:**
mwynhau'r awyr agored diarffordd, ond cael blas hefyd ar ychydig o ddiwylliant y wlad gan ymweld â chastell a chael cinio mewn tafarn leol ar y ffordd.

**Esiamplau o sut i'w denu nhw:**
— Awgrymu llwybrau cerdded prydferth yn yr ardal sy'n mynd heibio safle treftadaeth.
— Rhoi gwybodaeth am y golygfeydd gorau yn yr ardal.
— Hyrwyddo llefydd bwyta lleol mewn amgylchedd naturiol sy'n gweini bwyd da, Cymreig, fel tafarn wledig ger llwybr coedwig.
— Dweud wrth westeion am brofiadau gwahanol yn yr awyr agored, fel pysgota plu yn Nyffryn Gwy neu daith dywys o amgylch safle cynhyrchu Halen Môn.

## Archwilwyr Diwylliannol

**Cyplau ac unigolion, 45+**

**Beth maen nhw'n ei hoffi:**
ymweld â llefydd a gwyliau mewn trefi / dinasoedd sy'n cynnwys ymweld ag orielau, cestyll, tai hanesyddol, gerddi, sbas a mannau diddorol.

**Beth maen nhw eisiau:**
mwynhau prydferthwch cyrchfannau a chael profiad dyfnach o dreftadaeth ddiwylliannol y lle.

**Esiamplau o sut i'w denu nhw:**
— Cynnig gwyliau byr i ddinasoedd a thripiau i drefi llawn bwrlwm.
— Tynnu sylw at safleoedd treftadaeth lleol, mannau da i dynnu lluniau a llefydd i fwynhau natur.
— Hyrwyddo gwyliau a digwyddiadau, megis gŵyl diwylliant Cymreig, Tafwyl, lle gall ymwelwyr gwrdd â'r trigolion lleol.
— Dweud wrth westeion am bwysigrwydd y safleoedd treftadaeth gerllaw, megis hanes byr am gastell y dref, neu rannu ychydig ffeithiau am arferion Cymreig.

## Archwilwyr heb Deulu

**Cyplau a grwpiau, 18–35 oed**

**Beth maen nhw'n ei hoffi:**
darganfod profiadau a llefydd newydd; gwneud gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored a mynd i weld llefydd; wedi bod ar wyliau byr rhamantus mae'n debyg, gwyliau sba byr neu fynd i ŵyl.

**Beth maen nhw eisiau:**
digon o amrywiaeth, rhywbeth gwahanol sy'n werth gwario eu hincwm arno, cyfleoedd am anturiaethau meddal, e.e. beicio mynydd, caiacio.

**Esiamplau o sut i'w denu nhw:**
— Darparu gwybodaeth am chwaraeon dŵr, chwaraeon mynydd a gweithgareddau llawn adrenalin sydd ar gael yn lleol.
— Awgrymu y dylent fynd am dro i safleoedd awyr agored llai prysur, megis rhannau o Arfordir Treftadaeth Ceredigion.
— Dweud wrth westeion am unrhyw ddigwyddiadau un tro neu weithgareddau unwaith ac am byth yn yr ardal, megis gwyliau bwyd stryd neu gystadlaethau arforgampau.

## Archwilwyr Teuluol Egnïol

**Grwpiau teuluol sy'n cynnwys rhieni (33–55) â phlant (7–15)**

**Beth maen nhw'n ei hoffi:**
gwyliau egnïol a gwyliau wrth y traeth gydag ymweliadau ag atyniadau; mynd i rywle newydd; mwynhau'r ffordd o fyw yn lleol.

**Beth maen nhw eisiau:**
digonedd o weithgareddau i ddewis ohonynt, ni waeth beth yw'r tywydd; cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth rhwng gweithgareddau egnïol.

**Esiamplau o sut i'w denu nhw:**
— Dweud wrth westeion am y traethau gorau yn yr ardal.
— Rhestru llwybrau a gweithgareddau ar gyfer y teulu sydd ar gael yn y Parciau Cenedlaethol cyfagos, gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.
— Hyrwyddo atyniadau pob tywydd, lleol, fel amgueddfeydd cenedlaethol, Folly Farm, Profiad y Bathdy Brenhinol a chanolfannau gweithgareddau.
— Dweud wrthynt am ddigwyddiadau lleol, fel amser adrodd storïau i blant mewn llyfrgelloedd neu siopau llyfrau gerllaw.



# Offer i'ch helpu.

Rydym yn gwybod am Ddarganfod erbyn hyn, felly dyma ychydig o wybodaeth ymarferol i chi.



## Y cynnwys a'r negeseuon.

Bydd Croeso Cymru yn defnyddio 'Fy Nghymru.' / 'Find yours...' i gyflwyno Blwyddyn Darganfod. Mae hyn yn dilyn patrwm y negeseuon blaenorol:

**2016 Blwyddyn Antur**
**Gwlad Gwlad**

#GwladGwlad
#FindYourEpic

**2017 Blwyddyn Chwedlau**
**Ein Gwlad Epic**

#GwladGwlad
#FindYourEpic

**2018 Blwyddyn y Môr**
**Ein Glannau Epic**

#GwladGwlad
#FindYourEpic

Mae 'Fy Nghymru.' / 'Find yours...' yn galluogi ein hymgyrchoedd i ymwneud â 'Darganfod' ac, yn bwysicach fyth, 'Darganfod eich hun'. Mae'n ein galluogi i ysgogi sgwrs ar bob un o'n llwyfannau ac ym mhob partneriaeth. Mae hefyd yn gyson â brand Cymru.

Bydd y negeseuon yn cael eu cyfieithu i ddiwallu anghenion ein prif farchnadoedd fel a ganlyn:

**Y DU / Iwerddon / Rhyngwladol**
**This is Wales.**
Find yours...

#FindYourEpic
#ThisIsWales

**Cymraeg**
**Dyma Gymru.**
Fy Nghymru.

#GwladGwlad

**Almaeneg**
**Das ist Wales.**
Entdeckenswert.





# Cymryd rhan.

Dilynwch @croesocymru i weld beth rydym yn ei bostio.

I gadw i fyny â’r hyn sy’n digwydd yn y diwydiant yng Nghymru dilynwch @CroesoCymruBus.

Defnyddiwch yr hashnodau #gwladgwlad neu #findyourepic ar eich postiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Os hoffech chi i Groeso Cymru gael gwybod am gynnyrch a digwyddiadau newydd, anfonwch e-bost i productnews@llyw.cymru

I gael y newyddion a’r cyfleoedd diweddaraf, cofrestrwch ar gyfer e-gylchlythyr y diwydiant Croeso Cymru — businesswales.gov.wales/tourism/cy

Ewch i walesonview.com i weld lluniau o ansawdd uchel am ddim, neu anfonwch e-bost i imagesupport@llyw.cymru

# Hybu antur ðiogel.

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ystyried diogelwch pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau antur. Mae'r awyr agored yn cynnig llawer o gyfleoedd cyffrous i bobl sy'n barod i fentro'n ddiogel, drwy ddringo i ben y mynyddoedd neu ganŵio mewn ogofâu.

Er mwyn hybu diogelwch mae Croeso Cymru yn cefnogi ymgyrch ddiogelwch genedlaethol gydweithredol 'Mentro'n Gall Cymru', sydd wedi cynllunio cyfres o negeseuon i helpu i gadw eich cwsmeriaid yn ddiogel ac yn gyfforddus yn yr awyr agored. Rydym yn awyddus i weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod y negeseuon hyn yn cyrraedd pawb.

Gallwch gynnwys negeseuon Mentro'n Gall Cymru mewn gwybodaeth rydych yn ei rhoi i'ch cwsmeriaid mewn llawer o ffyrdd. Mae'r negeseuon a'r deunyddiau'n cynnwys tri fideo byr, posteri a phecyn cymorth i fusnesau, ac maen nhw ar gael am ddim.



I gael rhagor o wybodaeth ewch i mentrongallcymru.com



# Buððsoðði yn eich cynnyrch.

Mae'n bwysig ein bod yn dal i gynyddu a gwella'r cynnyrch, y digwyddiadau a'r profiadau sy'n denu ymwelwyr i Gymru. Rydym yn cefnogi syniadau a phrosiectau arloesol sy'n helpu i droi hyn yn realiti.

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd y mae Blwyddyn Darganfod yn eu cynnig i weithio gyda busnesau twristiaeth er mwyn datblygu cynnyrch, ymgyrchoedd a phrofiadau newydd a chyffrous, a digwyddiadau sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru, rydym eisiau gweld digwyddiadau a phrofiadau mwy a gwell, rhai o safon uchel iawn, sy'n cael eu cefnogi gan gyfoeth o atyniadau cefnogol ar lawr gwlad.

**Ein cynlluniau ariannu.**

Mae nifer o gynlluniau ariannu a all eich helpu i ddod â'ch syniadau yn fyw, gan gynnwys dwy gronfa refeniw sy'n cael eu cefnogi drwy Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru. Ein tair prif gronfa fuddsoddi yw:

- EFF–TISS: Cronfa Dyfodol yr Economi – Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (ar gyfer prosiectau cyfalaf)
- RTEF: Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (ar gyfer prosiectau refeniw)
- TPIF: Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (ar gyfer prosiectau refeniw).

**Cysylltu.**

I gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ariannu ewch i: businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid

I drafod syniadau ar gyfer prosiectau cyfalaf, cysylltwch â:
Tîm EFF–TISS (prosiectau cyfalaf)
tiss@llyw.cymru
0845 010 8020

I drafod syniadau ar gyfer prosiectau refeniw, cysylltwch â'ch swyddog rhanbarthol:

De-orllewin Cymru
Philip.Abraham@llyw.cymru
0300 025 4528

De-ddwyrain Cymru
Louisa.Giles@llyw.cymru
0300 061 6012

Canolbarth Cymru
Helen.Jones28@llyw.cymru
0300 025 7424

Gogledd Cymru
AndrewWallace.Forfar@llyw.cymru
0300 062 5837



# Ein Blwyddyn Darganfod 2019 — a thu hwnt.

Dyma ein cyfle i dynnu sylw at ddiwylliant unigryw Cymru, at ei thirluniau godidog a'r cyfleoedd antur unigryw sydd ganddi i'w cynnig.

Yn 2019, gadewch inni annog ein hymwelwyr i ddarganfod — boed nhw'n llythrennol yn darganfod lle, ynteu'n darganfod neu'n ailddarganfod nhw eu hunain.

Gadewch inni ddenu mwy o bobl ar hyd llwybrau godidog fel Ffordd Cymru a Llwybr Arfordir Cymru at leoliadau penodol ar draws y wlad, a dangos sut gall ein profiadau anturus, diwylliannol ac amgylcheddol gorau ymblethu i greu iddynt wyliau epig.



## I wneud Cymru yn lleoliad y bydd pobl o bob cwr o'r byd eisiau heidio yno, yn 2019 a thu hwnt, ein nod yw gweithio gyda'n gilydd i:

Ddal ati i hyrwyddo ac atgyfnerthu brand unigryw Cymru, ar sail amcanion ein brand:
— Codi ein statws
— Synnu ac ysbrydoli
— Newid canfyddiadau
— Gwneud pethau da
— Cymru a dim amheuaeth

Cyfrannu at werth cynyddol twristiaeth yng Nghymru, gan gynyddu'r gwerthu hwn 10% dros y flwyddyn nesaf.

Darparu ffocws ar gyfer gwaith cydweithredol pwrpasol, hirdymor ar draws Cymru.

Yn anad dim, rydym eisiau ysbrydoli a difyrru ein pobl, ein diwydiant a'n hymwelwyr.

*'And above all, watch with glittering eyes the whole world around you because the greatest secrets are always hidden in the most unlikely of places.'*

**Roald Dahl**

# Nodiadau.

Caiff **2019: Blwyddyn Darganfod Cymru** ei gyhoeddi gan Croeso Cymru, is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru 2018.
ISBN Print: 978-1-78964-133-2
ISBN Digidol: 978-1-78964-135-6

Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Y Brif Rodfa, Ystad Ddiwydiannol Trefforest Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth: Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru.
Cynhyrchu a golygu cynnwys: Amy Pay, Dylunio: Departures.
WG35827 Hawlfraint y Goron 2018, Croeso Cymru

**croeso.cymru**